

Rhagrybudd i Cyngor Llawn (yr un cynta sydd yn bosib)

Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle sy'n codi gyda'r strategaeth newydd ar ddileu TB mewn gwartheg i ystyried pa mor effeithiol ydyw o ran lles anifeiliaid (bywyd gwyllt a da byw), iechyd y cyhoedd a'r gost.

Mae'r lefelau uchel parhaus o'r clefyd, ei effaith ar les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd, ynghyd â'r gost gynyddol i'r pwrs cyhoeddus, yn awgrymu nad yw'r mesurau presennol yn addas i'r diben. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi a gweithredu'r pwyntiau canlynol:

Clefydau Trosglwyddadwy yw TB buchol a dylid mynd i'r afael ag ef yn holistaidd fel mater o les anifeiliaid, yn fywyd gwyllt ac yn anifeiliaid fferm, a hynny gan ddefnyddio cyfres gyflawn o fesurau ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Mae'r gofyniad i brofi gwartheg yn aml yn rhoi straen ar dda byw ac yn peri risg uchel y bydd y rheiny sy'n cynnal y profion am TB buchol yn cael eu hanafu neu eu lladd.

Mae'r methiant parhaus i fynd i'r afael â TB buchol yn peri llawer o broblemau iechyd meddwl ymysg teuluoedd amaeth a phobl sy'n gysylltiedig â'r maes.

Pan fydd achosion yn ymddangos ar ddaliad amaethyddol mae angen ymdrin â nhw mewn modd sensitif gan gyfathrebu yn effeithiol ac yn uniongyrchol.

Mae angen i Fwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cyngori Technegol a benodwyd yn gyhoeddus yn ddiweddar gael cynrychiolaeth gytbwys sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt.


Cynigydd

Cyng. Wyn Evans



Eilydd

Cyng. Gareth Lloyd



Received by M.O 20/4/23
S. [Signature]

